

Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Gradd Unigol a Dwyradd) – Fersiwn Ymgynghori



Gwnaed i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r Cymhwyster CBAC TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

Trosolwg o'r Cymhwyster

Bydd y cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- Gefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig¹, gan roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
 - datblygu eu dealltwriaeth, eu hempoethi a'u gallu i ymateb a chyfyngu'n effeithiol
 - rhyngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth a meithrin perthnasoedd
 - profi ac ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth amrywiol sy'n cynnig mewnwelediad i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach
 - tanio dychymyg a chreadigrwydd.
- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd², gan roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
 - adeiladu ar eu sgiliau ieithyddol
 - tyfu'n holistaidd o ran eu dealltwriaeth a'u defnydd pwrpasol o ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
 - cymhwyso eu dealltwriaeth o gysyniadau ieithyddol
 - addasu a thrin iaith er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ag ystod o wahanol gynulleidfaoedd
 - datblygu sgiliau derbyn, dehongli a mynegi iaith
 - trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau presennol i gyd-destunau newydd gan gynnwys agweddau cymdeithasol a diwylliannol iaith.
- Cefnogi'r ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygiad iaith a dewis llenyddiaeth³, gan roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
 - profi ysgogiadau perthnasol, cyffrous, dilys a heriol er mwyn ysbrydoli siarad ac ysgrifennu pwrpasol
 - profi cyfoeth o lenyddiaeth.

¹ [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

² [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Egwyddorion cynnydd - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

³ [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

Mae'r cynnig hwn ar gyfer pedair uned i'w hastudio ar gyfer Gradd Unigol a chwe uned ar gyfer Dwyradd. Bydd tair o'r unedau (Unedau 1, 2 a 3) yn gyffredin o ran cynnwys ond byddant yn cael eu pwysoli'n wahanol.

TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Gradd Unigol)

Amlygir yr unedau cyffredin gyda *.

Uned 1: Dylanwad a phŵer

Arholiad ysgrifenedig*

30% o'r cymhwyster (15% o'r ddwyradd)

Wedi'i farcio gan CBAC

Uned 2: Cyd-destun ac ystyr

Aseiad di-arholiad*

20% o'r cymhwyster (10% o'r ddwyradd)

Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

Uned 3: Perthyn

Aseiad di-arholiad*

20% o'r cymhwyster (10% o'r ddwyradd)

Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

Uned 4: Cymhelliant

Arholiad ysgrifenedig

30% o'r cymhwyster

Wedi'i farcio gan CBAC

Cymhwyster unedol fydd hwn.

TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Dwyradd)

Amlygir yr unedau cyffredin gyda *.

Uned 1: Dylanwad a phŵer

Arholiad ysgrifenedig*

15% o'r cymhwyster (30% o'r radd unigol)

Wedi'i farcio gan CBAC

Uned 2: Cyd-destun ac ystyr

Aseiad di-arholiad*

10% o'r cymhwyster (20% o'r radd unigol)

Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

Uned 3: Perthyn

Aseiad di-arholiad*

10% o'r cymhwyster (20% o'r radd unigol)

Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

Uned 4: Cymhelliant

Arholiad ysgrifenedig

22.5% o'r cymhwyster

Wedi'i farcio gan CBAC

Uned 5: Parhad a newid

Aseiad Di-arholiad

20% o'r cymhwyster

Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

**Uned 6: Cysylltiad(au)
Arholiad ysgrifenedig
22.5% o'r cymhwyster
Wedi'i farcio gan CBAC**

Cymhwyster unedol fydd hwn.

Nid oes unrhyw hierarchaeth yn y drefn y mae'r unedau'n cael eu cyflwyno. Nid yw'r drefn yn awgrymu trefn addysgu'r unedau.

Bydd modd sefyll yr unedau cyffredin o fewn y radd unigol a'r ddwyradd o gyfres haf 2026 ymlaen.

Bydd unedau sy'n arwahanol i'r radd unigol/dwyradd ar gael o 2027.

Gwybodaeth am Unedau

Rhoddir cyfeiriadau at Amcanion Asesu (AA) ym mhob Uned fel syniad o'r hyn i ganolbwyntio arno. Gwneir penderfyniadau ynghylch union bwysoliadau a pha linyddau o AA sy'n cael eu targedu yn ystod y datblygiad manwl.

Uned 1 (gradd unigol a dwyradd)

Pwrpas yr uned hon yw:

- deall ac ymateb yn feirniadol i amrywiaeth o destunau ysgrifenedig
- ysgrifennu'n eglur, addasu ar gyfer pwrpas ac effaith, a defnyddio nodweddion a thechnegau ieithyddol priodol

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a'r cynnwys posibl canlynol: **Dylanwad a phŵer**, gan ganolbwyntio ar grefft yr awdur, strategaethau i ddylanwadu a pherswadio, dynameg pŵer, tuedd, a dehongli a thrin.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad ysgrifenedig a fydd ar gael o gyfres haf 2026. Bydd yn cynnwys detholiad o dasgau a fydd yn targedu AA1 ac AA2. Gall gynnwys tasgau deall a dadansoddi yn seiliedig ar destunau o flodeugerdd sy'n cynnwys testunau ffuglen, ffeithiol a barddoniaeth, yn ogystal â thasg ysgrifennu anllenyddol.

Bydd yr uned hon yn ffurfio 30% o'r radd unigol a 15% o'r ddwyradd. Mae'r arholiad yn debygol o bara 2 awr. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

Uned 2 (gradd unigol a'r ddwyradd)

Pwrpas yr uned hon yw:

- datblygu sgiliau llafaredd
- dangos dealltwriaeth o destunau ac ymateb iddynt yn yr iaith lafar
- mynegi eu barn eu hunain gan ddefnyddio iaith briodol

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a'r cynnwys posibl canlynol: **Cyd-destun ac ystyr**, gan ganolbwyntio ar lafaredd.

Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad di-arholiad a fydd ar gael yn ystod blwyddyn gyntaf yr astudiaeth. Bydd yn cynnwys cymysgedd o dasgau, a all gynnwys ymateb ar lafar i

farddoniaeth ar ffurf trafodaeth grŵp a thasg llafaredd unigol. Rydym yn cynnig bod detholiad o gerddi a allai ffurfio rhan o'r astudiaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei gynnwys mewn blodeugerdd, ond bod rhyddid i ganolfannau ddewis cerddi ychwanegol i'w hastudio, gan sicrhau eu bod yn briodol i'r canllawiau yn y Meini Prawf Cymeradwyo ynghylch y cyfnod a'r ffurf.

Bydd yr uned hon yn targedu AA1 ac AA2, gyda mwy o bwyslais ar Gyfathrebu a mynegi. Bydd yn ffurfio 20% o'r radd unigol a 10% o'r ddwyrradd. **Rhaid** cyflwyno'r uned hon yn ddigidol.

Uned 3 (gradd unigol a dwyradd)

Pwrpas yr uned hon yw:

- creu portffolio o ysgrifennu ar wahanol ffurfiau, gan gynnwys ysgrifennu creadigol
- gwneud ymchwil tuag at ddarn o waith ysgrifenedig ffeithiol
- dangos tystiolaeth o gynllunio a threfnu eu gwaith eu hunain

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a'r cynnwys posibl canlynol: **Perthyn**, gan ganolbwyntio ar gynefin, cymuned, dinasyddiaeth; safbwyntiau byd-eang a lleol; cynllunio a drafftio gwaith; ysgrifennu creadigol.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad sydd ar gael yn ystod blwyddyn gyntaf yr astudiaeth. Bydd yn gofyn i fyfyrwyr greu portffolio sy'n dangos tystiolaeth o amrywiaeth o dasgau, gan gynnwys tasgau wedi'u hysgogi gan ryddiaith ffuglen naratif – gallai'r rhain gynnwys tasgau dadansoddi, ysgrifennu sy'n archwilio elfennau neu themâu llenyddol, ysgrifennu seiliedig ar ymchwil ac ysgrifennu creadigol. Bydd tystiolaeth o gynllunio ac ailddrafftio yn cael ei hasesu yn rhan o'r uned hon – gall hyn fod ar ffurf sylwebaeth am eu hysgrifennu eu hunain. Rydym yn cynnig y dylai'r dewis o destun rhyddiaith ffuglen naratif ddod o restr hir gynhwysfawr o destunau a awgrymwyd sy'n bodloni gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo, adran 13. Bydd hyn yn caniatáu elfen o ddewis a hyblygrwydd i ganolfannau ddewis testun sy'n briodol i'w cynnwys, yn unol ag adran 14 y Meini Prawf Cymeradwyo, gan sicrhau hefyd bod y testunau sy'n cael eu dewis yn bodloni'r meini prawf diffiniedig ar gyfer y testun i'w astudio.

Bydd yr uned yn canolbwyntio ar AA1 ac AA2. Bydd yn ffurfio 20% o'r radd unigol a 10% o'r ddwyrradd. **Rhaid** cyflwyno'r uned hon yn ddigidol.

Uned 4 (gradd unigol yn unig)

Pwrpas yr uned hon yw:

- ystyried cynrychiolaeth/cyflwyniad cymeriadau, perthnasoedd a chymunedau drwy ddrama
- deall testunau ysgrifenedig yn eu cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol a sut y gall y rhain lywio gwahanol safbwyntiau a phersbectif

Bydd yr uned yn seiliedig ar y cysyniad a'r cynnwys posibl canlynol: **Cymhelliant**, gan ganolbwyntio ar sut mae iaith yn cael ei defnyddio ar gyfer cyd-destun, safbwynt a chynrychiolaeth, crefft yr awdur, pragateg.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad ysgrifenedig a fydd ar gael o gyfres haf 2027 ymlaen. Bydd yn cynnwys cymysgedd o dasgau a fydd yn targedu AA1 ac AA2 a gall gynnwys dadansoddiad testunol a thraethawd llenyddol. Ffocws yr uned fydd testun drama y bydd canolfannau'n ei ddewis o restr o destunau a bennwyd gan CBAC.

Bydd yr uned yn ffurfio 30% o'r dyfarniad cyffredinol.

Uned 4 (dwyradd yn unig)

Pwrpas yr uned hon yw:

- ystyried cynrychiolaeth/cyflwyniad cymeriadau, perthnasoedd a chymunedau
- deall testunau ysgrifenedig yn eu cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol a sut y gall y rhain lywio gwahanol safbwyntiau a phersbectif

Bydd yr uned yn seiliedig ar y cysyniad a'r cynnwys posibl canlynol: **Cymhelliant**, gan ganolbwyntio ar sut mae iaith yn cael ei defnyddio ar gyfer cyd-destun, safbwynt a chynrychiolaeth, crefft yr awdur, pragmateg. Bydd opsiynau yn yr uned hon. Rhoddir yr hyblygrwydd i ganolfannau ddewis testun sydd naill ai'n ddrama neu'n rhyddiaith ffuglen naratif ar gyfer yr uned hon. Bydd canolfannau'n dewis y testun i'w astudio ar gyfer yr uned hon o restr o destunau a bennwyd gan CBAC.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad ysgrifenedig a fydd ar gael o gyfres haf 2027 ymlaen. Bydd yn cynnwys cymysgedd o dasgau a fydd yn targedu AA1 ac AA2 a gall gynnwys dadansoddiad testunol a thraethawd llenyddol.

Bydd yr uned yn ffurfio 22.5% o'r dyfarniad cyffredinol.

Uned 5 (dwyradd yn unig)

Pwrpas yr uned hon yw:

- ystyried y defnydd o iaith yn nramâu Shakespeare a sut mae wedi dylanwadu ar iaith dros amser
- ystyried themâu, cymeriadau a phlot o safbwynt eu perthnasedd i fywyd cyfoes

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a'r cynnwys posibl canlynol: **Parhad a newid**, gan ganolbwyntio ar y defnydd o iaith a'r newid ynddi mewn amser, datblygiad cymeriadau a phlot.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad, a fydd yn asesu AA1 ac AA2 yn gyfartal, drwy siarad a gwrando, a darllen ac ysgrifennu. Bydd yn cynnwys cymysgedd o dasgau, a fydd yn cynnwys ymateb ar lafar i ddrama gan Shakespeare, a darn o lenyddiaeth yn seiliedig ar y ddrama honno. O ran dewis drama gan Shakespeare i'w hastudio yn yr uned hon, bydd rhyddid gan ganolfannau i ddewis o unrhyw un o'i ddramâu. Bydd tasg darllen ac ymateb ychwanegol yn seiliedig ar ddwy gerdd (un o'r cyfnod 1600-1900, ac un o'r 20fed ganrif neu'r 21ain ganrif) yn rhan o'r uned hon hefyd.

Bydd yr uned yn ffurfio 20% o'r dyfarniad cyffredinol. **Rhaid** cyflwyno'r uned hon yn ddigidol.

Uned 6 (dwyradd yn unig)

Pwrpas yr uned hon yw:

- Gwneud cysylltiadau rhwng darnau o ysgrifennu
- Gwneud cysylltiadau o ran amser, lle, gofod, lleoliad, iaith, perthnasoedd

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a'r cynnwys posibl canlynol: **Cysylltiad(au)**, gan ganolbwyntio ar y sgiliau cyfuno a chrynhoi, cymharu a gwerthuso ffynonellau, perthnasoedd cymeriadau mewn testunau llenyddol a chysylltiadau rhwng strwythur, ystyr a phwrpas testunau.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad a fydd ar gael yng nghyfres haf 2027, gyda detholiad o destunau a fydd yn targedu AA1 ac AA2. Gall gynnwys tasgau deall a dadansoddi yn seiliedig ar un testun ffuglen neu ffeithiol o flodeugerdd ac un testun heb ei weld o'r blaen, yn ogystal â thasg ysgrifennu anllenyddol.

Bydd yr uned hon yn ffurfio 22.5% o'r dyfarniad cyffredinol. Mae'r arholiad yn debygol o bara 2 awr. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dilysrwydd a dibynadwyedd.

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd, a hefyd sut i gydbwysu'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Mae'r Meini Prawf Cymeradwyo yn ei gwneud yn ofynnol i 40% o'r cymhwyster gael ei asesu drwy asesiad di-arholiad sydd wedi'i osod gan CBAC, wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.

Rydym yn cydnabod yr heriau posibl o ran rheoli hyn, ac rydym yn cynnig lleihau hyn mewn sawl ffordd. Gan fod y cymhwyster yn un unedol, rydym yn cynnig caniatáu i ganolfannau ledaenu'r llwyth gwaith a'r asesu drwy sicrhau bod yr unedau asesiad di-arholiad cyffredin ar gael i'w hasesu yn ystod blwyddyn gyntaf y cymhwyster. Bydd canolfannau'n gallu dewis pryd i sefyll yr unedau asesiad di-arholiad hyn, gyda'r posibilrwydd o gwblhau un neu ddwy o'r unedau ym mlwyddyn gyntaf y cymhwyster. Ar ben hynny, rydym yn cynnig amrywio lefelau rheolaeth ar gyfer tasgau asesu di-arholiad fel bod gan ganolfannau fwy o hyblygrwydd o ran gofynion goruchwyliaeth ar gyfer agweddau ar bob asesiad di-arholiad. Ar gyfer yr asesiad di-arholiad cyffredin siarad a gwrando, er enghraifft, rydym yn cynnig lefel isel o reolaeth dros y dasg ei hun, ac i roi'r hyblygrwydd i ddysgwyr gyflwyno eu tasgau mewn amrywiaeth o fformatau digidol. Yn flaenorol, ystyriwyd bod gofynion asesiad di-arholiad yn amharu ar addysgu a dysgu, ond credwn y bydd y dull hwn yn achosi llai o amharu. Ar gyfer yr asesiad di-arholiad cyffredin darllen ac ysgrifennu, rydym yn cynnig dull portffolio, lle bydd dysgwyr yn cwblhau tasgau llai ar adegau perthnasol o'r broses addysgu a dysgu. Er y bydd y tasgau hyn yn cael eu gosod gan CBAC, byddant yn cynnwys lefelau rheolaeth amrywiol. Rhaid cyflwyno tasgau'n ddigidol, ond bydd rhywfaint o hyblygrwydd o ran fformat ar gyfer tasgau unigol. Yn y datblygiad manwl, byddwn yn parhau i ystyried hydrinedd yr asesiadau di-arholiad a sicrhau bod y tasgau'n cyfateb yn naturiol i'r addysgu a dysgu.

Bydd y 60% sy'n weddill o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy arholiad. Hyd tebygol pob arholiad yw 2 awr, sy'n hydrin i fyfyrwyr ar lefel TGAU yn ein barn ni. Byddai arholiad o'r hyd hwn yn ein galluogi i ddatblygu asesiad dilys sy'n sicrhau y gellir ymdrin â digon o gynnwys. Drwy gael yr arholiad ar gyfer yr uned gyffredin (Uned 1) ar gael ym mhob cyfres yr haf o 2026 ymlaen, bydd canolfannau'n gallu trefnu addysgu'r uned hon ar unrhyw adeg yn ystod blwyddyn gyntaf y cwrs, a hefyd caniatáu i ddysgwyr ailsefyll yr uned hon. Bydd yr unedau arwahanol ar gael yn ystod yr ail flwyddyn astudio; rydym yn cynnig, fel modd i gynorthwyo canolfannau sy'n addysgu grwpiau dyfarniadau cymysg i oedi dilyn llwybrau amrywiol, a rhoi cyfle i ganolfannau a dysgwyr ohirio'r penderfyniad gradd unigol/dwyradd tan ddiwedd y flwyddyn gyntaf o astudio.

Credwn y dylai ein cymhwyster arfaethedig ddarparu cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio sy'n ennyn diddordeb eu dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Rydym hefyd wedi ymrwmo i gyfateb i'r elfennau hyblygrwydd a dewis a argymhellir yn y Meini Prawf Cymeradwyo, fel y gall canolfannau ddewis testunau i'w hastudio sy'n briodol i'r cyd-destun a'r garfan. Yn yr unedau asesiad di-arholiad cyffredin, bydd rhyddid i ganolfannau ddewis barddoniaeth a rhyddiaith ffuglen naratif sy'n bodloni'r gofynion diffiniedig a osodwyd yn y Meini Prawf Cymeradwyo mewn perthynas â'r oes, y genre a'r tarddiad. Bydd CBAC yn cefnogi canolfannau drwy gynnwys dewisiadau barddoniaeth priodol mewn blodeugerdd, a thrwy gyhoeddi 'rhestr hir' o destunau rhyddiaith addas. Ar gyfer y ddwyradd, bydd Asesiad Di-arholiad Uned 5 yn rhoi rhyddid i ganolfannau ddewis drama gan Shakespeare.

Yn yr unedau sy'n cael eu harholi, rydym yn cynnig rhestr osod o destunau amrywiol y gall canolfannau ddewis testun ohoni i'w astudio. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cymaroldeb a dibynadwyedd rhwng tymhorau arholiadau. Byddwn hefyd yn cefnogi canolfannau drwy gynnig amrywiaeth o weithiau sy'n addas i'w hastudio, rhai ffuglen a ffeithiol, mewn blodeugerdd.

I sicrhau dibynadwyedd yr asesiad di-arholiad, byddwn yn sicrhau bod pob uned yn targedu'r un pwysoliadau amcanion asesu dros amser, bydd meini prawf marcio yn cael eu datblygu a bydd athrawon yn cael pecyn o gefnogaeth i sicrhau eu bod yn cymhwyso'r meini prawf marcio'n gyson ar draws canolfannau a thros amser. Byddwn yn cymedroli sampl o waith canolfan i roi sicrwydd pellach o ran dibynadwyedd.

Credwn y gellir asesu pwrpas a chynnwys yr unedau darllen ac ysgrifennu (unedau 1 a 4 cyffredin y radd unigol ac unedau 4 a 6 cyffredin y ddwyradd) yn ddilys drwy arholiad. Gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i sicrhau'r dilysrwydd mwyaf posibl. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau a arholir yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd rhwng hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

Atodiad 1

Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o [Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg](#) Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Pwrpas

1. Rhaid i TGAU iaith a Llenyddiaeth Saesneg:

- 1.1. gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer Dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed
- 1.2. adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae Dysgwyr wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
- 1.3. cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei [bedwar diben](#)
- 1.4. galluogi Dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
- 1.5. darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad Dysgwyr mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae Dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

Nodau

2. Rhaid i TGAU iaith a Llenyddiaeth Saesneg:

- 2.1 ganiatáu i Ddysgwyr archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas ag iaith a Llenyddiaeth Saesneg
- 2.2 darparu cyfleoedd i Ddysgwyr gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon
- 2.3 galluogi Dysgwyr i archwilio thema drawsgwricwlaidd hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

3. Rhaid i'r cymhwyster TGAU iaith a Llenyddiaeth Saesneg gefnogi Dysgwyr i allu:

- 3.1. gwerthfawrogi sut mae iaith yn ein cysylltu â'r byd o'n cwmpas trwy ymgysylltu â thestunau llafar ac ysgrifenedig o amrywiaeth o gyfnodau, lleoedd a diwylliannau
- 3.2. darllen a gwrando ar amrywiaeth o destunau llafar ac ysgrifenedig, gan ystyried sut mae iaith, cywair ac arddull yn cyfleu ystyr
- 3.3. deall arwyddocâd pwrpas, cynulleidfa, cyfrwng a chyd-destun wrth gyfathrebu, mynegi, deall ac ymateb i iaith
- 3.4. mynegi eu hunain mewn modd eglur, cywir, rhugl a chreadigol wrth siarad ac ysgrifennu Saesneg
- 3.5. datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o eirfa, gramadeg a defnydd o'r Saesneg

Cynnwys y Pwnc

Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg** fod ar gael fel cymhwyster gradd unigol a dwyradd.

TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Gradd Unigol)

- **Rhaid i TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Gradd Unigol) gynnwys:**

11.1 o leiaf dau destun llawn, gan gynnwys rhyddiaith ffuglen naratif a drama

11.2 cerddi sy'n cwmpasu gwahanol gyfnodau ac amrywiaeth o fesurau

11.3 detholiad o destunau ffeithiol mewn amrywiaeth o ffurfiau ac at amryw ddibenion

11.3.1 mae'n rhaid i'r rhain gynnwys testunau di-dor a phytiog

11.3.2 mae'n rhaid i'r holl destunau adlewyrchu bywyd go iawn a mynd i'r afael â chyd-destunau a themâu sy'n berthnasol i Ddysgwyr

TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Dwyradd)

- **Rhaid i TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Dwyradd) gynnwys:**

12.1 o leiaf tri thestun llawn, gan gynnwys rhyddiaith ffuglen naratif a drama.

Rhaid i un o'r tri thestun fod yn ddrama gan Shakespeare

12.2 detholiad eang o gerddi o wahanol gyfnodau mewn amrywiaeth o ffurfiau

12.3 detholiad eang o destunau ffeithiol mewn amrywiaeth o ffurfiau ac at amryw ddibenion

12.3.1 mae'n rhaid i'r rhain gynnwys testunau di-dor a phytiog

12.3.2 mae'n rhaid i'r holl destunau adlewyrchu bywyd go iawn a mynd i'r afael â chyd-destunau a themâu sy'n berthnasol i Ddysgwyr

Rhaid i'r gweithiau sy'n cael eu hastudio yn **TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Gradd Unigol)** a **TGAU Iaith a Llenyddiaeth (Dwyradd)** fod yn gyfoethog a sylweddol a chynnwys detholiad:

13.1 o weithiau o dreftadaeth lenyddol Cymru, Lloegr, yr Alban neu Iwerddon

13.2 o weithiau cyn yr 20fed ganrif

13.3 o weithiau gan awduron byw

13.4 o weithiau sy'n archwilio themâu Cymru a Chymreictod, gan adlewyrchu ehangder dinasyddiaeth a diwylliannau Cymraeg a Chymreig

13.5 o weithiau gan awduron sy'n cynrychioli persbectif byd-eang, gan gynnwys y rheini o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

Rhaid i'r corff dyfarnu gynnig elfen o ddewis a hyblygrwydd i Ganolfannau ddewis gweithiau sydd fwyaf priodol i gwricwlwm eu Canolfan eu hunain.

Amcanion Asesu

- Yn yr asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y cymhwyster, rhaid targedu'r amcanion asesu canlynol i gyfateb i'r pwysoli a nodir:

AA1	<p>Deall ac ymateb</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Deall ac ymateb yn feirniadol i amrywiaeth o destunau llafar ac ysgrifenedig, gan ddewis a gwerthuso pwyntiau perthnasol i egluro a chefnogi dehongliadau a datblygu syniadau. ii. Gwneud cymariaethau ac esbonio cysylltiadau o fewn a rhwng testunau ysgrifenedig a chyfathrebu llafar, gan gyfuno a chrynhoi gwybodaeth, syniadau a themâu fel y bo'n briodol. iii. Esbonio sut mae iaith, strwythur a ffurf yn cyfrannu at gyflwyno gwybodaeth, syniadau a themâu mewn testunau ysgrifenedig ac ar lafar a sut mae'r rhain yn effeithio ar y darlennydd/gwyliwr/gwrandäwr. iv. Deall testunau ysgrifenedig a llafar yn eu cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol a sut y gall y rhain lywio gwahanol safbwyntiau a phersbectif. 	50%
AA2	<p>Mynegi a chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Cyfathrebu'n glir, yn effeithiol ac yn llawn dychymyg, gan ddefnyddio ffurfiau, geirfa a thechnegau i ennyn diddordeb y darlennydd/gwyliwr/gwrandäwr. ii. Addasu cyfathrebu trwy ddewis cywair, geirfa a thechnegau sy'n briodol i wahanol gyd-destunau a chynulleidfaoedd. iii. Trefnu cyfathrebu gan ddefnyddio amrywiaeth o nodweddion ieithyddol a strwythurol i gefnogi rhesymeg a chydlynid cyffredinol. iv. Defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau ar gyfer eglurder, pwrpas ac effaith, â gramadeg priodol ac, mewn cyfathrebu ysgrifenedig, atalnodi a sillafu cywir. 	50%

Cynllun asesu

- Bydd y cymhwyster **TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg** yn ddi-haen.
- Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg** fod yn unedol.
- Rhaid i fanyleb **TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg** gynnwys y trefniadau asesu canlynol:

21.1. bydd cyfanswm o 40% o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy asesiad(au) di-arholiad sy'n cael eu gosod gan y corff dyfarnu, eu marcio gan y Ganolfan, a'u Cymedroli gan y corff dyfarnu

21.2. bydd asesiad(au) di-arholiad drwy ddulliau siarad a gwranddo yn asesu sgiliau deall ac ymateb a sgiliau mynegi a chyfathrebu

21.2.1. Byddant yn cyfrannu tuag at 20% o'r cymhwyster cyfan

21.2.2. Bydd hyn yn cynnwys tasgau unigol a grŵp

21.3. bydd asesiad(au) di-arholiad drwy ddulliau darllen ac ysgrifennu yn asesu sgiliau deall ac ymateb a sgiliau mynegi a chyfathrebu

21.3.1. Byddant yn cyfrannu tuag at 20% o'r cymhwyster cyfan

21.4. bydd cyfanswm o 60% o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy arholiad(au) allanol gan ddefnyddio dulliau darllen ac ysgrifennu.

21.4.1. Bydd yr arholiad(au) hyn yn cael eu gosod a'u marcio gan y corff dyfarnu

21.4.2. Rhaid i arholiadau allanol gynnwys gweithiau sydd wedi'u hastudio a rhai sydd heb eu gweld o'r blaen (llynyddol ac anllynyddol)

21.5. rhaid asesu'r gweithiau a astudiwyd a amlinellir drwy ddefnyddio un o'r tri dull canlynol: asesiad di-arholiad (siarad a gwrando), asesiad di-arholiad (darllen ac ysgrifennu) neu arholiad allanol. Rhaid i bob un o'r dulliau hyn asesu o leiaf un gwaith sydd wedi'i astudio

21.6. dylai'r radd unigol a'r ddwyradd ddarparu'r un lefel o her, ond bydd y ddwyradd yn gofyn am gynnwys ehangach, gan gynnwys drwy asesu gweithiau sydd wedi'u hastudio a rhai sydd heb eu gweld o'r blaen

21.7. rhaid i'r radd unigol a'r ddwyradd gynnwys rhai unedau cyffredin. Rhaid i'r unedau hyn fod yn werth rhwng 30% a 35% o'r ddwyradd, a rhwng 60% a 70% o'r radd unigol

21.8. rhaid i'r rheol derfynol fod o leiaf 30%, a rhaid iddi gynnwys arholiad